My book
Teachers' Guide

Pori Drwy Stori

Welcome to your book-making materials from Pori Drwy Stori sent to you by independent charity Book Trust. We suggest using these with your class during the summer term. This unique resource will help your class to explore the process of making their own book, providing a motivating tool which will allow them to write independently and collaboratively in response to a variety of stimuli, on subjects that are of interest and importance to them.

In your pack, you will find enough template books for each child in your class to have their own, which they can develop, keep and be proud of. The books are designed to be flexible and adaptable, allowing children to produce something special whatever their ability. The template book also opens opportunities for family engagement by encouraging parent / carer involvement in the project.

The books are yours to use in the way that's most appropriate for your class, so can be easily tied into other work you are doing. Our Schools Engagement Manager will also be sharing examples of good practice and ideas which are proving particularly successful.

Objectives:

The resource will help your children to develop:

- Creativity
- Skills in conveying information and ideas through narrative and non-narrative forms
- Planning and sequencing skills
- Positive attitudes towards books

The resource will also help children to progress in core skills around:

- Word recognition
- Word structure and spelling
- Sentence structure and punctuation

The high-quality books have also been designed to provide a tool which can help to further develop your links with learners' homes.

We hope that:

- Your learners will end up with a book of their own creation which they can own and take pride in
- This ownership will ensure that they take the book home, are keen to talk about it and share it with family and friends, asking for help with certain aspects
- It will have real longevity, becoming a keepsake reminding parents and carers of their child's achievements

Suggestions for use

The book has been developed to enable each child to have plenty of space in which to create their own story. You might like to use it as a scrap book, with your class either working on paper first and sticking in their drawings or writing, or using coloured paper, comics, magazines, newspapers and other materials to bring it to life.

You can approach this activity either as whole class discussing different ideas or on an individual/pair basis with children focusing on an area they are interested in. You may like to help them to build their story by guiding them through the different stages - from the initial idea to reaching 'the end'!

You may find that alternative approaches work for different children and you might want to consider story mapping or shared writing approaches.

Consider the children's prior learning and check that children already know:

- That a book has a title, author, illustrator (sometimes the same person) and that you can discover what the book is about by reading the 'blurb' on the back.
- That books can tell a story with words and / or pictures. As a reader you can often learn things from the pictures that aren't mentioned in the words.

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

A few ideas to get you started:

Page reference	Comments
	Before you hand out your books to each child, to work with them to explore what makes up a story. You may like your pupils to use stories with familiar settings, stories from a range of cultures, traditional / fairy tales or fantasy worlds. The book lists on the Pori Drwy Stori website include lots of great books for Reception-aged pupils. You could keep coming back to the books you choose as your class begin to develop their own. The following may be adapted to suit the ability and needs of the children in your class.
Front cover	Ask your class to write their name on the front as they are the author of this book. • You might like to start with a title to help pupils come up with a story idea. • Alternatively you can wait until the end of the story to write the title and have a draft title at this stage. Why not wait until their book is complete and then get them to design a picture for the front cover?
Inside front cover	The inside front cover can be used to help your class to take ownership of their books and let their families know what they'll be working on. Ask them to take the book home and work with their parent / carer to find a picture to stick in or add a really short biography about themselves. For example: 'My name is Sarah, I am five years old and my favourite colour is green.'
Page 3	You may also like to ask them to start thinking about: • Who is the story for? • Who is going to be in the story? • What pictures will they draw or stick in to go with their story?
Page 4	This page is where your pupils can really start to tell their story with space for both writing and drawing.
Pages 5 and 7	These pages can be used for cutting and sticking images from their own photos, magazines, newspapers or comics.
Pages 6 and 8	These pages are for the story to develop and really take shape, focusing on writing sentences and developing the story.
Page 9	The story should be coming to an end now, start thinking about finishing the story.
Page 10	How will the story end?
Inside back cover	The end
Back cover	Just like any other book there's space on the back cover for your pupils to write a short summary of what they have written. They could even ask friends or family members to write a short review of their book.

Book Trust is an independent charity dedicated to encouraging people of all ages and cultures to engage with books and the written word.
To find out more about Pori Drwy Stori, please visit www.poridrwystori.org.uk

Fy llyfr

Canllaw i athrawon

Croeso i'ch deunyddiau gwneud llyfrau gan Pori Drwy Stori. Byddem yn awgrymu eich bod yn defnyddio'r rhain gyda'ch dosbarth yn ystod tymor yr haf. Bydd yr adnodd unigryw hwn yn helpu eich dosbarth i archwilio'r broses o wneud eu llyfr eu hunain, gan ddarparu adnodd ysgogol a fydd yn eu galluogi i ysgrifennu'n annibynnol ac ar y cyd mewn ymateb i amrywiaeth o ysgogiadau, ar bynciau sydd o ddiddordeb iddynt ac sy'n bwysig iddynt.

Yn eich pecyn, bydd digon o lyfrau templed i alluogi pob plentyn yn y dosbarth i gael ei lyfr ei hun, y gall ei ddatblygu, ei gadw a bod yn falch ohono. Cynlluniwyd y llyfrau i fod yn hyblyg ac fel bod modd eu haddasu, gan alluogi'r plant i greu rhywbeth arbennig, beth bynnag fo'u gallu. Mae'r llyfr templed hefyd yn cynnig cyfleoedd i gynnwys y teulu, drwy annog rhieni / gofalwyr i gymryd rhan yn y prosiect.

Eich llyfrau chi ydynt, a gallwch eu defnyddio yn y ffordd sydd fwyaf priodol i'ch plant, felly gellir eu cynnwys yn hawdd mewn gwaith arall rydych yn ei wneud. Bydd Gweithiwr Allgymorth Pori Drwy Stori hefyd yn rhannu enghreifftiau o arfer da a syniadau sy'n profi'n llwyddiant mawr.

Amcanion:

Bydd yr adnodd yn helpu eich plant i ddatblygu:

- Creadigrwydd.
- Sgiliau cyfleu gwybodaeth a syniadau ar ffurf naratif ac fel arall
- Sgiliau cynllunio a dilyniannu
- Agweddau cadarnhaol tuag at lyfrau

Bydd yr adnodd hefyd yn helpu'r plant i feithrin sgiliau craidd o ran:

- Nodi geiriau
- Strwythur geiriau a sillafu
- Strwythur brawddegau ac atalnodi

Cynlluniwyd y llyfrau o ansawdd uchel hefyd i fod yn adnodd a all helpu i ddatblygu eich cysylltiadau â chartrefi'r dysgwyr ymhellach. Ein gobaith yw:

- Bod eich dysgwyr yn creu eu llyfr eu hunain y gallant deimlo perchenogaeth drosto a bod yn falch ohono
- Bydd y berchenogaeth hon yn sicrhau eu bod yn mynd â'r llyfr adref gyda nhw a bod yn awyddus i siarad amdano a'i rannu gyda theulu a ffrindiau, gan ofyn am help gydag agweddau penodol
- Bydd iddo hirhoedledd gwirioneddol, a bydd yn rhywbeth y gall rhieni a gofalwyr ei gadw i gofio am gyflawniadau eu plentyn

Awgrymiadau ar gyfer ei ddefnyddio:

Datblygwyd y llyfr i roi digon o le i bob plentyn greu ei stori ei hun. Efallai y byddwch am ei ddefnyddio fel llyfr lloffion, gyda'ch dosbarth naill ai'n gweithio ar bapur yn gyntaf ac yna'n gludo eu lluniau neu eu testun i mewn i'r llyfr, neu'n defnyddio papur lliw, cylchgronau, papurau newydd a deunyddiau eraill i ddod â'r llyfr yn fyw.

Gallwch gwblhau'r gweithgaredd hwn naill ai fel dosbarth cyfan gan drafod syniadau gwahanol neu fel unigolyn/mewn parau gyda'r plant yn canolbwyntio ar faes y mae ganddynt ddiddordeb ynddo. Efallai y byddwch am eu helpu i ddatblygu eu stori drwy eu tywys drwy'r camau gwahanol - o'r syniad gwreiddiol hyd 'y diwedd'!

Efallai y byddwch yn gweld bod dulliau gwahanol yn gweithio i blant gwahanol, ac efallai y byddwch am ystyried mapio stori neu ddulliau ysgrifennu ar y cyd.

Dylech ystyried dysgu blaenorol y plant a sicrhau eu bod eisoes yn gwybod y canlynol:

- Bod i lyfr deitl, awdur, darlunydd (weithiau'r un person) ac y gallwch ddarllen am hanfod y stori yn y 'broliant' ar y cefn.
- Bod llyfrau yn gallu adrodd stori drwy eiriau a / neu luniau. Fel darllenydd, yn aml gallwch ddysgu pethau o'r lluniau nad oes sôn amdanynt yn y geiriau.

Llywodraeth Cymru Welsh Government

BookTrust Cymru
Inspire a love of reading Ysbrydoli cariad at ddarllen

Rhai syniadau i'ch helpu i roi cynnig arni:

Cyfeirnod tudalen	Sylwadau
	Cyn i chi ddosbarthu eich llyfrau i bob plentyn, efallai y byddwch am weithio gyda hwy i ystyried beth sy'n gwneud stori. Efallai y byddwch am i'ch disgyblion ddefnyddio storïau gyda lleoliadau tebyg, storïau o amrywiaeth o ddiwylliannau, storïau traddodiadol / tylwyth teg neu storïau ffantasi. Mae'r rhestrau llyfrau ar wefan Pori Drwy Stori yn cynnwys llawer o lyfrau gwych i ddisgyblion oedran derbyn. Gallech Sylwadau barhau i ddychwelyd at y llyfrau y gwnaethoch eu dewis wrth i'ch dosbarth ddechrau datblygu eu llyfrau eu hunain. Gellir addasu'r canlynol yn unol â gallu ac anghenion y plant yn eich dosbarth.
Clawr blaen	Gofynnwch i'ch dosbarth nodi eu henw ar flaen y llyfr gan mai nhw yw'r awdur. • Efallai y byddwch am ddechrau gyda theitl i helpu'r disgyblion i feddwl am syniad ar gyfer stori. • Neu efallai y bydd yn well gennych aros tan ddiwedd y stori cyn nodi'r teitl a defnyddio teitl drafft ar y cam hwn. Beth am aros nes bod eu llyfr yn gyflawn ac yna gofyn iddynt ddylunio llun ar gyfer y clawr blaen?
Y tu mewn i'r clawr blaen	Gellir defnyddio y tu mewn i'r clawr blaen i helpu eich dosbarth i gymryd perchenogaeth o'u llyfrau a dweud wrth eu teulu ar beth y byddant yn gweithio. Gallech ofyn iddynt fynd â'r llyfr adref a gweithio gyda'u rhiant / gofalwr i ddod o hyd i lun i'w ludo i mewn neu ychwanegu bywgraffiad byr iawn amdanynt eu hunain. Er enghraifft: 'Fy enw i yw Sarah, rwy'n 5 oed a fy hoff liw yw gwyrdd.'
Tudalen 3	Efallai y byddwch hefyd am ofyn iddynt ddechrau meddwl am y canlynol: • I bwy mae'r stori? • Pwy fydd yn y stori? • Pa luniau y byddant yn eu tynnu neu'n eu gludo i mewn i gyd-fynd â'u stori?
Tudalen 4	Ar y dudalen hon, gall eich disgyblion fynd ati i adrodd eu stori, ac mae lle iddynt ysgrifennu a chynnwys llun.
Tudalennau 5 a 7	Gellir defnyddio'r tudalennau hyn i dorri a gludo lluniau o'u ffotograffau, cylchgronau neu bapurau newydd eu hunain.
Tudalennau 6 a 8	Dylid defnyddio'r tudalennau hyn i ddatblygu'r stori a rhoi sylwedd iddi, gan ganolbwyntio ar ysgrifennu brawddegau a datblygu'r stori.
Tudalen 9	Dylai'r stori fod yn tynnu at ei therfyn erbyn hyn, felly dylai'r disgyblion ddechrau meddwl am y geiriau clo.
Tudalen 10	Sut ddaw'r stori i ben?
Y tu mewn i'r clawr cefn	Y diwedd
Clawr cefn	Yn union fel unrhyw lyfr arall, mae lle ar y clawr cefn i'ch disgyblion lunio crynodeb byr o'r hyn y maent wedi ei ysgrifennu. Gallent hyd yn oed ofyn i ffrindiau neu aelodau o'r teulu lunio adolygiad byr o'u llyfr.

Mae Booktrust yn elusen annibynnol sy'n ymroddedig i annog pobl o bob oedran a diwylliant i ymddiddori mewn llyfrau.
I gael rhagor o wybodaeth am Pori Drwy Stori, ewch i www.poridrwystori.org.uk